**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR ARCHWILIO**

**SUBJECT:** **PWYLLGOR ARCHWILIO - DYDD MAWRTH, 2 CHWEFROR 2021 DYDD MAWRTH, 2 CHWEFROR 2021**

**REPORT OF:**

---

PRESENT:

Councillors S. Healy (Is-gadeirydd)
D. Davies
P. Baldwin
D. Hancock
J. Hill
W. Hodgins
J. Holt
J. Millard
J. C. Morgan
M. Moore
K. Rowson
B. Summers
S. Thomas
L. Winnett
T. Edwards
M. Veale

WITH:

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 2** | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd H. Trollope a'r Rheolwr Archwilio a Risg. | |
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Adroddwyd y datganiadau buddiant dilynol:<br><br>Cynghorydd B. Summers – Eitem Rhif 8 Adroddiad Blynyddol y Rheolwr Archwilio a Risg 2019/20<br><br>Cynghorydd J. Hill – Eitem Rhif 8 Adroddiad Blynyddol y Rheolwr Archwilio a Risg 2019/20<br><br>Cynghorydd W. Hodgins - Eitem Rhif 10 Ymchwiliad i Gyhoeddi'r Eitem Eithriedig | |
| **No. 4** | **<u>TREFN YR AGENDA</u>**<br><br>Esboniodd y Swyddog Diogelu Data a Llywodraethiant y cyflwynwyd Eitem Rhif 11 Proses Dadgomisiynu Adeilad dan wybodaeth eithriedig mewn camgymeriad, felly dylai'r adroddiad gael ei ystyried dan adran gyhoeddus yr agenda.<br><br>PENDERFYNWYD yn unol â hynny. | |
| **No. 5** | **<u>PENODI CADEIRYDD</u>**<br><br>Cyflwynwyd enwebiadau ar gyfer penodi Cadeirydd Pwyllgor Archwilio 2020/201.<br><br>Cynigiodd Aelod benodi'r Cynghorydd J. Millard i'r swydd ac eiliwyd y cynnig.<br><br>Cynigiodd Aelod arall benodi Mr. T. Edwards i'r swydd, ac eiliwyd y cynnig hwn.<br><br>Mewn pleidlais a gymerwyd,<br><br>PENDERFYNWYD penodi Mr. T. Edwards i fod yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio 2020/2021. | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **No. 6** | **PWYLLGOR ARCHWILIO**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd 2020. | |
| **No. 7** | **DALEN WEITHREDU**<br><br>Cyflwynwyd y Ddalen Weithredu yn deillio o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd 2020, yn cynnwys:<br><br>*Datganiad Cyfrifon 2016/17, 2017/18 & 2018/19*<br><br>Yn dilyn cais am wybodaeth swyddogol, dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau fod costau cyngor cyfreithiol annibynnol fel rhan o waith a gynhaliwyd ar y Datganiad Cyfrifon yn £8,200k.<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i nodi'r Ddalen Weithredu. | |
| **No. 8** | **POLISI ATAL GWYNGALCHU ARIAN**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad yr Uwch Arolygydd.<br><br>Cyflwynodd yr Uwch Archwilydd yr adroddiad sy'n rhoi'r Polisi Atal Gwyngalchu Arian, a ddiwygiwyd i adlewyrchu'r Rheoliadau Gwyngalchu Arian a Chyllido Terfysg (Diwygiad) 2019. Atodir y Polisi yn Atodiad 1.<br><br>Siaradodd y Swyddog am yr adroddiad a thynnodd sylw at bwynt ynddo.<br><br>Dywedodd Aelod y byddai'n fanteisiol i ddiwygiadau gael eu hamlygu o fewn yr adroddiad, a hefyd gofynnodd os oedd y polisi yn debyg i un awdurdodau lleol eraill.<br><br>Mewn ymateb dywedodd y Swyddog fod y diwygiadau i'r polisi yn bennaf yn y fformat i adlewyrchu polisïau awdurdodau lleol eraill; fodd bynnag caiff unrhyw ddiwygiadau pellach eu hegluro yn nes ymlaen.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at y weithdrefn adrodd drwy dynnu sylw at adran 6 y ddogfen polisi, ac esboniodd y Swyddog y dylid rhoi adroddiad am unrhyw amheuon o wyngalchu arian o fewn 24 awr, neu cyn gynted ag sydd modd. | |

| | | |
|---|---|---|
| | PENDERFYNWYD derbyn yr arian a chymeradwyo a mabwysiadu'r polisi. | |
| **No. 9** | **<u>ADRODDIAD BLYNYDDOL Y RHEOLWR ARCHWILIO A RISG 2019/20</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Archwilio a Risg.<br><br>Cyflwynodd yr Arweinydd Proffesiynol Archwilio Mewnol yr adroddiad sy'n rhoi adolygiad gwrthrychol y Rheolwr Archwilio a Risg o system rheolaeth fewnol yr Awdurdod yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20, a barn archwilio blynyddol y Rheolwr Archwilio a Risg.<br><br>Barn y Rheolwr Archwilio a Risg oedd bod system rheolaeth fanwl Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20 wedi gweithredu i lefel sy'n rhoi sicrwydd rhesymol am ddigonolrwydd ac effeithlonrwydd cyffredinol fframwaith sefydliad llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth.<br><br>Wedyn aeth y Swyddog drwy'r adroddiad a thynnu sylw at bwyntiau ynddo.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, esboniodd y Swyddog y caiff yr atodiadau i'r adroddiad hefyd eu cynnwys yn yr eitem ddilynol ar yr agenda. Hwn oedd adroddiad blynyddol y Rheolwr Archwilio a Risg, ac roedd ei barn yn seiliedig ar gyfuniad o waith a adroddwyd yn flaenorol i'r Pwyllgor drwy adroddiadau cynnydd blynyddol y Cynllun Archwilio.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at adran 2.2.3 yr adroddiad a theimlai y gellid camddehongli geiriad y paragraff, a dywedodd y Swyddog y byddai'n codi hyn gyda'r Rheolwr Archwilio a Risg.<br><br>Wedyn cyfeiriodd Aelod at adran 2.4.2 lle dywedodd 'na amlygwyd unrhyw feysydd consyrn', a dywedodd y byddai wedi credu fod bob amser feysydd lle gellid gwneud gwelliannau.<br><br>Mewn ymateb cytunodd y Swyddog fod bob amser feysydd ar gyfer gwella. Esboniodd fod yr adroddiadau cynnydd a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn gyffredin yn dynodi gwendidau a chamau gweithredu i Reolwyr i liniaru'r gwendidau hynny, ac wedyn cynhaliwyd archwiliad dilynol i sicrhau yr aethpwyd i'r afael â'r camau gweithredu. Fodd bynnag, yn nhermau barn y Rheolwr | |

| | | |
|---|---|---|
| | Archwilio a Risg ar gyfer 2019/20, ni ddynodwyd unrhyw dueddiadau neu feysydd consyrn a ddynodwyd fyddai'n effeithio ar ei barn archwilio.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at ddatganiadau cyfrifon eraill blaenorol nad oedd wedi eu llofnodi a gofynnodd os digwyddodd hynny erbyn hyn.<br><br>Cadarnhaodd Swyddog Archwilio Cymru y llofnodwyd cyfrifon blaenorol Blaenau Gwent hyd at 2018/19 gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar 26 Tachwedd 2020; a chaiff Cyfrifon 2019/20 eu llofnodi yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am ddiffyg Archwilydd TG, dywedodd y Swyddog y caiff hyn ei gydnabod a'i ddogfennu yn y gofrestr risg gwasanaeth. Nid oedd yn unigryw i Flaenau Gwent ac nid oedd gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol Archwilwyr TG arbenigol. Fodd bynnag rhoddodd sicrwydd fod staff o fewn y tîm sy'n gymwys iawn gyda TG.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chydnabod barn archwilio blynyddol y Rheolwr Archwilio a Risg, fel y'i manylir ym mharagraffau 1.1. a 3.3, sef:<br><br>• Bod yr asesiadau archwilio a gynhaliwyd yn rhoi sylw i amrywiaeth o weithgareddau ac yn ddangosydd rhesymol o lefel y sicrwydd ar gyfer yr Awdurdod; fodd bynnag, ni allant roi sylw cyflawn a chydnabyddir nad yw'r gweithdrefnau sicrwydd ar eu pen eu hunain yn gwarantu y caiff yr holl risgiau sylweddol eu canfod.<br>• Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r gwaith archwilio a gynhaliwyd yn ystod 2019/20 a'r gwelliant parhaus yn fframwaith llywodraethiant y Bwrdd a'r amgylchedd rheoli mewnol, yn fy marn i, mae system Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent o reolaeth fewnol yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20 yn gweithredu i lefel sy'n rhoi sicrwydd rhesymol ar ddigonolrwydd ac effeithlonrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth y sefydliad. | |
| **No. 10** | **<u>ADRODDIAD CYNNYDD PWYLLGOR ARCHWILIO</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Arweinydd Proffesiynol Archwilio Mewnol.<br><br>Cyflwynodd Archwilydd Proffesiynol Archwilio Mewnol yr | |

| | | |
|---|---|---|
| | adroddiad sy'n diweddaru Aelodau ar gynnydd am y cyfnod 1 Ebrill i 31 Rhagfyr 2020, a chadarnhau'r broses ar gyfer penderfynu ar feysydd blaenoriaeth y cynllun archwilio gweithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol.<br><br>Dywedodd y Swyddog i'r Awdurdod weithredu trefniadau cynllunio argyfwng ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2019/20 fel canlyniad i bandemig Covid-19. Fel canlyniad, dim ond gwasanaethau critigol oedd yn gweithredu yn ystod y cyfnod clo a chafodd staff archwilio eu hadleoli i gynorthwyo yn y meysydd hyn. Fe wnaeth yr adleoli barhau drwy gydol chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol ac effeithio ar allu yr adran i gwblhau gwaith archwilio. Felly, roedd Cynllun Archwilio Mewnol 2020/21 yn seiliedig ar 9 mis y flwyddyn o fis Gorffennaf 2020 i fis Mawrth 2021.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, dywedodd y Swyddog fod camgymeriad teipio yn Atodiad D a chadarnhaodd y dylai'r golofn ddarllen '2019/20 Gwirioneddol i fis 9'.<br><br>Holodd Aelod am y gost hanesyddol o £33 y dyn a amlygwyd o fewn Cynnal a Chadw Priffyrdd ar Atodiad C, ac os y byddai'r rhain yn effeithio ar y gyllideb cynnal a chadw priffyrdd.<br><br>Esboniodd y Swyddog fod Atodiad C yn dangos lle na chafodd archwiliadau dilynol lle dynodwyd gwendidau eu cynnal. Fel yr amlinellwyd, mae'r Swyddog wedi cwrdd gyda'r Adran Cyfrifeg a bydd y gost yn parhau.<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a'r Pwyllgor Archwilio:<br><br>• Nodi'r canfyddiadau o fewn yr Atodiadau;<br>• Nodi'r cynnydd ar weithgareddau ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill i 31 Rhagfyr 2020; a<br>Pharhau i roi her briodol lle'n berthnasol a chefnogi dewis gweithgareddau archwilio ar gyfer cynllun archwilio gweithredol 2020/21. | |
| **No. 11** | **<u>PROSES DADGOMISIYNU ADEILAD</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>Cyn ystyried yr adroddiad, gofynnodd Aelod am eglurhad pam y | |

| | | |
|---|---|---|
| | cafodd yr adroddiad ei symud o statws gwybodaeth eithriedig, o gofio fod adroddiadau blaenorol wedi eu hystyried dan wybodaeth eithriedig.<br><br>Esboniodd y Swyddog Diogelu Data a Llywodraethiant nad oedd eithriad wedi ei dynnu ar gyfer yr adroddiad neilltuol hwn, gan na chafodd eithriad ei weithredu yn y lle cyntaf. Dywedodd fod yr adroddiad yn amlinellu proses dadgomisiynu adeiladau o hyn ymlaen, yn hytrach na materion penodol BRC fel yn yr adroddiadau blaenorol.<br><br>Mewn ymateb gofynnodd Aelod os gellid disgwyl adroddiad pellach yng nghyswllt BRC, cafodd nifer o faterion eu codi gan Aelodau yng nghyfarfod arbennig y Pwyllgor Archwilio ym mis Mawrth 2020.<br><br>Cytunodd Aelod arall, a dywedodd ei bod yn deall y bydd y Rheolwr Gyfarwyddwr yn cyflwyno ymateb pellach ar y pryderon a gododd Aelodau.<br><br>Dilynodd trafodaeth fer pan ddywedodd Aelod arall y cynhaliwyd trafodaeth eang yn y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2020 am ddadgomisiynu'r BRC. Teimlai aelodau fod y problemau mor sylweddol fel iddynt ofyn am adroddiad arall am y materion a godwyd. Fodd bynnag, gwerthfawrogai' bod y Rheolwr Gyfarwyddwr wedi bod yn delio gyda blaenoriaethau eraill mewn ymateb i bandemig Covid.<br><br>Mewn ymateb esboniodd y Rheolwr Gyfarwyddwr y cynhaliwyd ymchwiliad annibynnol gan y Tîm Archwilio Mewnol am ddadgomisiynu'r BRC, sef testun yr adroddiad gwreiddiol a ystyriodd y Pwyllgor. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r gweithredu dilynol a gymerwyd mewn ymateb i'r adroddiad gwreiddiol h.y. 'Mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr wedi rhoi'r dasg i Gyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol i gynnal adolygiad llawn o'r trefniadau ar gyfer rheoli gwaredion'.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod Aelodau yn y cyfarfod ym mis Mawrth 2020 wedi gofyn am sicrwydd y dysgwyd y gwersi, ac nad oedd unrhyw brosesau rheoli yn eu lle i sicrhau nag oedd unrhyw ailadrodd ar y problemau a ddynodwyd yn y BRC. Mae'r adroddiad yn rhoi manylion y trefniadau sydd ar waith, ac sydd angen eu hystyried gan y Pwyllgor Archwilio gan ei fod yn ganlyniad yr ymchwiliad gwreiddiol; a gofynnodd y Pwyllgor am | |

hynny. Fodd bynnag, deallai y teimlai Aelodau fod cwestiynau eraill i gael eu hateb, a phenderfynodd y Rheolwr Gyfarwyddwr y byddai'n trafod y materion gyda'r Rheolwr Archwilio a Risg i sicrhau y cafodd yr holl bwyntiau a godwyd gan Aelodau eu trin.

Teimlai Aelod fod yr adroddiad yn brin o sicrwydd pellach i Aelodau, o gofio am y ffaith i'r ddigwyddiadau blaenorol wedi bod heb i Aelodau wybod amdanynt. Roedd Aelodau eisiau tystiolaeth ddigonol y cafodd y gwersi hynny eu dysgu. Croesawodd y Rheolwr Gyfarwyddwr i gael trafodaethau pellach gyda'r Rheolwr Archwilio a Risg ac awgrymodd y dylid cynnal cyfarfodydd dilynol gydag arweinwyr y grwpiau gwleidyddol fel lefel bellach o sicrwydd ar gyfer Aelodau.

Dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr ei bod yn hapus i gael trafodaethau pellach gydag arweinwyr y grwpiau gwleidyddol os oes angen mwy o sicrwydd.

Mewn ymateb dywedodd yr Aelod ei bod yn falch y byddai'r Rheolwr Gyfarwyddwr yn cymryd y camau hynny, a'i fod yn derbyn yr adroddiad gyda'r amod y cynhelid trafodaethau pellach.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymdeithasol yr adroddiad yn diweddaru Aelodau ar weithredu'r camau gweithredu a ddynodwyd yn yr adroddiad blynyddol ar ddadgomisiynu'r BRC. Dywedodd y cafodd y broses ddadgomisiynu ei hadolygu ac mae'r gwersi a ddysgwyd yn amlygu'r angen am ddull systematig i ddadgomisiynu adeiladau nad ydynt yn weithredol. Datblygwyd dull gweithredu sydd yn awr wedi ei sefydlu mewn arfer gwaith, lle byddai'r Landlord Corfforaethol yn gweithredu'r camau gweithredu mewn cysylltiad gyda'r maes gwasanaeth sy'n gadael adeilad.

Yn ychwanegol, datblygwyd protocol (a atodir yn Atodiad 2) yn defnyddio'r gwersi a ddysgwyd o adroddiadau blaenorol ar gyfer gwaredu ysgolion, sy'n cynnwys y camau gweithredu a osodwyd allan yn flaenorol. Mae gwarediad ysgolion Heol y Frenhines a Bryngwyn yn ddiweddar wedi defnyddio'r ymarfer diwygiedig, ac ar ôl cwblhau cyfarfur'r Grŵp Swyddogion i adolygu sut y gweithiodd y broses i sicrhau y caiff unrhyw wersi pellach eu dysgu a'u sefydlu yn y broses weithredu. Mae defnydd y broses a ddatblygwyd ar gyfer gwaredion yn dangos fod y Cyngor wedi dysgu o brofiadau blaenorol a'r gwendidau a ddynodwyd yn adroddiad ddadgomisiynu'r BRC ac yn awr yn defnyddio proses

| | | |
|---|---|---|
| | effeithlon.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at y tabl yn yr atodiad i'r adroddiad a gofynnodd os y dylid cynnwys y gofrestr asbestos.<br><br>Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai hyn yn cael ei godi gan y Landlord Corfforaethol ar wahân ar ôl cwblhau'r broses ddadgomisiynu. Ffocws y camau gweithredu a amlinellir yn yr adroddiad yw sicrhau y caiff unrhyw ddeunyddiau neu weithgaredd eu gwagu'n gywir o unrhyw adeilad neu ofod cyn ei drosglwyddo i'r Landlord Corfforaethol. Byddai'r gofrestr asbestos yn weithredol pe byddai'r adeilad yn cael ei ddymchwel.<br><br>Mewn ym hna fyddai'r Landlord Corfforaethol yn derbyn trosglwyddo adeilad nes y byddai'r rhestr wirio wedi ei chwblhau, a bod meysydd gwasanaeth yn awr yn deall eu gofynion cyn gadael adeilad.<br><br>Cynigiodd Aelod y dylid cefnogi Opsiwn 1, gyda'r ychwanegiad fod y Rheolwr Gyfarwyddwr yn cynnal trafodaethau pellach gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol a Swyddogion perthnasol, ac yn adrodd yn ôl i arweinwyr grwpiau gwleidyddol fel lefel bellach o sicrwydd ar gyfer Aelodau.<br><br>Eiliwyd y cynnig.<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a bod y Pwyllgor Archwilio yn:<br><br>Cael sicrwydd y cafodd gwelliannau eu gwneud i'r prosesau dadgomisiynu a bod cydymffurfiaeth yn cael ei fonitro (Opsiwn 1); a<br><br>Bod y Rheolwr Gyfarwyddwr yn cynnal trafodaethau pellach gyda'r Rheolwr Risg ac Archwilio ac yn adrodd yn ôl i arweinwyr grwpiau gwleidyddol fel lefel bellach o sicrwydd ar gyfer Aelodau. | |
| **No. 12** | **<u>YMCHWILIAD I GYHOEDDI GWYBODAETH EITHRIEDIG</u>**<br><br>Gan roi ystyriaeth i'r sylwadau a fynegwyd gan y Swyddog Priodol am y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio. | |

| | | |
|---|---|---|
| | PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra bod yr eitem hon o fusnes yn cael ei chynnal gan ei bod yn devyg y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 a 15 Atodlen 12 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gyfarwyddwr.<br><br>Cyflwynodd y Rheolwr Gyfarwyddwr yr adroddiad sy'n rhoi canlyniad yr ymchwiliad i Aelodau i gyhoeddi adroddiad Eithriedig heb awdurdodiad.<br><br>Dilynodd trafodaeth, a<br><br>PHENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad sy'n cynnwys gwybodaeth yn gysylltiedig â materion ariannol/busnes personau heblaw'r Awdurdod; a gwybodaeth yn ymwneud ag unrhyw ymgynghoriadau/negodiadau neu ymgynghoriadau/negodiadau dan ystyriaeth mewn cysylltiad gyda materion cysylltiadau llafur yn deillio rhwng yr Awdurdod a gweithwyr cyflogedig/deiliaid swydd dan yr Awdurdod a chymeradwyo'r wybodaeth a'r argymhellion a gynhwysir ynddo. | |